



CYNGOR DINAS CAERDYDD

AMODAU TRWYDDED GYRWR CERBYDAU HACNI A LLOGI PREIFAT

DS. *Caiff yr amodau hyn eu gweithredu ar y cyd â'r Is-ddeddfau sy'n ymwneud â Gyrrwr Cerbydau Hacni.*

1. Ar ôl talu'r ffi angenrheidiol, bydd y drwydded yn ddilys am dair mlynedd.
2. Rhaid i'r bathodyn a roddir gan y Cyngor gael ei wisgo mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn gwbl amlwg a gweladwy bob amser tra bo'r gyrrwr yn cyflawni ei ddyletswyddau trwyddedig.
3. Bydd yr holl is-ddeddfau perthnasol a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â Cherbydau Hacni a chludo teithwyr yn berthnasol fel pe baent yn amodau sydd wedi'u hatodi i Drwydded y Gyrrwr.
4. Bydd gyrrwr Cerbyd Llogi Preifat yn lân ac yn daclus o ran gwisg a gwedd;
5. Bydd gyrrwr Cerbyd Llogi Preifat yn ymddwyn mewn modd cwrtais a threfnus ac yn cymryd rhagofalon rhesymol o sicrhau diogelwch pawb sy'n cael eu cludo neu sy'n dod i mewn neu'n gadael y cerbyd;
6. Ni fydd gyrrwr Cerbyd Llogi Preifat yn cludo neu'n caniatáu cludo dim mwy na nifer y bobl a nodir ar y plât sydd wedi'i osod ar du allan y cerbyd. Cyn belled â bod, er diben yr amod hwn, dau blentyn dan saith oed yn cael eu hystyried fel un person a thri phlentyn rhwng saith a deuddeg oed yn cael eu hystyried fel dau berson;
7. Bydd gyrrwr Cerbyd Llogi Preifat, pan ofynnir gan unrhyw un sy'n llogi'r cerbyd, yn:-
 - (i) Cludo nifer resymol o fagiau;
 - (ii) Yn cynnig cymorth rhesymol wrth lwytho neu ddadlwytho;
 - (iii) Yn cynnig cymorth rhesymol i symud y bagiau at neu o fynedfa unrhyw adeilad, gorsaf neu fan lle bydd yn casglu neu'n gollwng rhywun;
8. Rhaid i yrrwr Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat sydd wedi'i logi gan neu ar gyfer person anabl gyda'u ci tywys, ci clywed neu gi cymorth gludo ci y teithiwr a chaniatáu iddo aros gyda'r teithiwr ac ni all godi tâl ychwanegol am wneud hynny. Ni all gyrrwr wrthod cludo anifeiliaid oni bai eu bod wedi'u heithrio gan y Cyngor am resymau meddygol. (I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddfa Cerbydau Cyhoeddus ar Caerdydd 20787737).

Nodiadau

- (a) Nid oes gan y Cyngor hawl i roi Trwydded Gyrrwr oni bai ei fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol. Mae'n bwysig felly bod yr ymgeisydd yn rhoi atebion llawn a chywir i'r cwestiynau ar y ffurflen gais. **Rhaid** i'r ymgeisydd fod wedi cael trwydded lawn y DVLA am o leiaf deuddeg mis a bydd yn cyflwyno'r drwydded ar gais y Pwyllgor Trwyddedu a'i swyddogion awdurdodedig.
- (b) Mae gofyn i ymgeiswyr am Drwyddedau i yrru Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat sefyll prawf ar eu gwybodaeth am:

- (i) Y gyfraith mewn perthynas â'r masnachau.
 - (ii) Topograffi'r Ddinas a'r llwybrau cywir i'w cymryd rhwng amryw leoliadau.
- (c) Bydd pob ymgeisydd wrth wneud y cais cyntaf yn cyflwyno tystysgrif wedi'i llofnodi gan feddyg teulu cofrestredig yn datgan ei fod yn gorfforol iach. Mae gan y Cyngor y pŵer i fynnu cynnal gwiriadau meddygol yn ystod y flywyddyn gan gynnwys archwiliad gan ei feddyg ei hun o ran ei addasrwydd i yrru.
- (d) Bydd gofyn i bob ymgeisydd wrth wneud y cais cyntaf a bob 3 blynedd ar ôl hynny gwblhau a llofnodi ffurflen Datgelu a Gwahardd.
- (d) Bydd gofyn i bob ymgeisydd wrth wneud y cais cyntaf a bob blwyddyn ar ôl hynny gyflwyno datganiad gan y DVLA (Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau), o ran unrhyw ardstyadau neu anghymwysiadau a wnaed ar y Drwydded Yrru.
- (dd) Bydd gofyn i bob ymgeisydd wrth wneud y cais cyntaf ddarparu Tystysgrif yn cadarnhau ei fod wedi pasio Asesiad Prawf Llogi Preifat Tacsis yr Asiantaeth Safonau Gyrru.
- (e) Caiff y ffioedd trwyddedu eu hadolygu'n flynyddol ac mae manylion y ffioedd cyfredol ar gael ar gais.
- (f) Dylid adnewyddu trwydded ymlaen llaw i sicrhau parhad. Nid oes unrhyw gyfnod gras awtomatig. Mae gyrru heb drwydded yn drosedd.
- (i) Ni fydd trwyddedau'n cael eu cyflwyno nes bod y ffi briodol wedi'i thalu. Os gwneir taliad trwy siec heb ei thalu, bydd unrhyw drwydded a roddir yn annilys.
- (g) Mae'r bathodyn yn berchen i'r Cyngor a rhaid ei ddychwelyd pan ddaw'r drwydded i ben os na chaiff y drwydded ei hadnewyddu.
- (ng) Caiff Gyrwyr Llogi Preifat eu hatgoffa mai **dim ond** teithwyr sydd wedi archebu eu siwrne ymlaen llaw trwy weithredwr trwyddedig y gallant eu cludo. **Ni** chânt yrru tacsî yn yr un ffordd â gyrwyr Cerbydau Hacni a byddant yn euog o drosedd os gwnânt hynny. Bydd Gyrwyr Llogi Preifat hefyd yn euog o drosedd os byddant yn arddangos arwyddion ac ati, yn y car neu ar y car sy'n awgrymu bod y car ar gael i'w logi.
- (h) Mae gan y Cyngor y pŵer i atal, dirymu neu wrthod adnewyddu'r drwydded am resymau priodol. Os cafwyd trwydded drwy roi gwybodaeth anwir neu anghyflawn, ystyrir defnyddio'r pwerau hyn yn ogystal ag erlyn am y drosedd a gyflawnwyd.
- (i) Rhaid i Yrwyr Cerbydau Hacni/Llogi Preifat sydd wedi'u herlyn am unrhyw drosedd yn ystod cyfnod eu Trwydded roi gwybod ar unwaith i'r Swyddog Trwyddedu i'w hystyried.
- (l) Ni roddir trwydded i unrhyw un dan 21 oed. Ni roddir Trwydded i unrhyw un sy'n 70 oed neu drosodd oni bai ei fod ef neu hi wedi cyflwyno tystysgrif wedi'i llofnodi gan feddyg yn datgan ei fod ef neu hi yn gorfforol iach i yrru Cerbyd Hacni neu Logi Preifat.
- (ll) Ar gais teithiwr rhaid i'r gyrrwr ddarparu derbynneb ysgrifenedig am y ffi a godwyd yn nodi'r siwrne a rhif trwydded y gyrrwr.